University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# APELIADAU ACADEMAIDD GWEITHDREFN AR GYFER CYRSIAU A ADDYSGIR 2026/2027

| Teitl: Rheoliadau Apeliadau Academaidd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Disgrifiad o'r Adolygiad** | **Awdur** | **Cymeradwywyd gan a'r Dyddiad** | **Dyddiad Adolygu Nesaf** |
| 1.0 | Medi 2019 | Rhifyn Cyntaf | Siobhan Coakley | QAC/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019 | Mehefin 2020 |
| 2.0 | Medi 2020 | Ail Rifyn | Siobhan Coakley | QAC/Bwrdd Academaidd 3 Mehefin 2020 | Mehefin 2021 |
| 3.0 | Medi 2021 | Trydydd Rhifyn | Gwenllian Jones | QAC/Bwrdd Academaidd 19 Mai 2021 | Mehefin 2022 |
| 4.0 | Medi 2022 | Pedwerydd Rhifyn | Gwenllian Jones | QAC/Bwrdd Academaidd | Mehefin 2024 |
| 5.0 | Medi 2024 | Pumed Rhifyn | Siobhan Coakley | QAC/Bwrdd Academaidd 26 Mehefin 2024 | Mehefin 2025 |
| 6.0 | Medi 2025 | Chweched Rhifyn | Louise Neate/ Niamh Križan | QAC/Bwrdd Academaidd 25 Mehefin 2025 | Mehefin 2026 |
| 7.0 | Medi 2026 | Seithfed Rhifyn | Louise Neate/Niamh Križan | QAC/Bwrdd Academaidd 24 Mehefin 2026 | Mehefin 2027 |

# CYNNWYS

**ADRAN UN:** CYNGOR A CHYMORTH I FYFYRWYR....2

**ADRAN DAU:** GWEITHDREFN CAM 1 – DATRYS YN GYNNAR....2

**ADRAN TRI:** GWEITHDREFN CAM 2 – YSTYRIAETH YR APÊL GAN Y GYFADRAN.... 3

Amserlenni.... 3

Sail dros apelio.... 3

Prosesu apeliadau.... 4

Canlyniad.... 5

**ADRAN PEDWAR:** GWEITHREFN CAM 3 – CAIS I ADOLYGU.... 5

Sail dros agolygu.... 5

Amserlenni.... 5

Ystyriaeth gychwynnol i'r achos.... 5

Panel adolygu.... 6

**ADRAN PUMP:** SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA).... 7

## ADRAN UN: CYNGOR A CHYMORTH I FYFYRWYR

1.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol yr holl bartïon sy'n ymwneud â gweithredu ei Gweithdrefn Apeliadau Academaidd. Mae cyngor a chymorth cyfrinachol ar gael gan:

Undeb y Myfyrwyr - https://www.uswsu.com
Gwasanaethau Llesiant y Brifysgol - https://wellbeing.southwales.ac.uk/
Y Gaplaniaeth - https://www.southwales.ac.uk/services/chaplaincy/

1.2 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu arweiniad awdurdodol, ffurfiol ar gymhwyso a gweithredu'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd.

1.3 Fel arfer, ni fydd gofyn i fyfyrwyr fynychu unrhyw gyfarfodydd fel rhan o'r Weithdrefn Apêl Academaidd. Fodd bynnag, os caiff y myfyriwr ei wahodd i fynychu cyfarfod, mae caniatâd iddynt ddod â pherson i'w gefnogi; er enghraifft, swyddog o Undeb y Myfyrwyr, neu ffrind. Os hoffai'r myfyriwr i berson cymorth fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda nhw, rhaid i'r myfyriwr hysbysu Uned Gwaith Achos Myfyrwyr am enw, statws a manylion cysywllt y person o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod.

1.4 Mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person sy'n cefnogi os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r person enwebedig, ac os felly, rhoddir cyfle i'r myfyriwr enwebu person sy'n cefnogi gwahanol.

1.5 Rôl person cymorth yw bod yno i'r myfyriwr yn ystod y cyfarfod fel presenoldeb cefnogol. Nid eu rôl yw cynrychioli'r myfyriwr, mynychu cyfarfodydd ar eu rhan, eiriol ar eu rhan, na siarad ar eu rhan; oni bai bod cais yn cael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr a bod Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cytuno ar hyn fel addasiad rhesymol.

1.6 Nid yw gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur. O ganlyniad, ni ddylai myfyrwyr fod angen cefnogaeth na chynrychiolaeth gyfreithiol arnynt mewn perthynas â'r Weithdrefn Apêl Academaidd. Fodd bynnag, os yw'r myfyriwr yn dymuno cael cefnogaeth/cynrychiolaeth, rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk). Am ganllawiau ar ofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol, cyfeiriwch at y Weithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol.

**1.7** Os bydd y Brifysgol yn derbyn camau cyfreithiol ffurfiol, gan gynnwys gohebiaeth cyn-achos gan gyfreithiwr ar ran myfyriwr, gall roi'r gorau i weithredu o dan y weithdrefn hon, cynghori yswirwyr a phenodi cynrychiolwyr cyfreithiol (yn ôl yr angen) i ymateb i'r camau cyfreithiol.

## ADRAN DAU: GWEITHDREFN CAM 1 – DATRYS YN GYNNAR

2.1 Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i drafod eu canlyniadau diwedd blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

2.2 Cynghorir myfyrwyr i drafod unrhyw bryderon ynghylch eu canlyniadau neu benderfyniad y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Chynnydd gydag aelod priodol o staff yn y lle cyntaf, gan y gallai fod yn bosibl datrys y pryderon heb gyflwyno apêl. Gall hwn fod yn Arweinydd Modiwl neu'n Arweinydd Cwrs. *D.S. Gweler Adran 3.1: Amserlenni lle ceisir datrysiad cynnar.*

## ADRAN TRI: GWEITHDREFN CAM 2 – YSTYRIAETH YR APÊL GAN Y GYFADRAN

### Amserlenni

3.1 Mae apeliadau fel arfer yn sensitif o ran amser ac yn gofyn am ystyriaeth amserol i sicrhau nad oes effaith negyddol ar gynnydd myfyriwr. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno apêl o fewn 10 diwrnod gwaith i gyhoeddi'r canlyniadau, **waeth a yw unrhyw ddatrysiad cynnar yn cael ei geisio o fewn eich cyfadran**, gan ddefnyddio'r Ffurflen Apêl Academaidd berthnasol a chynnwys tystiolaeth ategol briodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gohebiaeth e-bost gan diwtoriaid/goruchwylwyr i gefnogi'r apêl, neu gopïau o asesiadau sy'n cynnwys canllawiau aneglur. Mae ffurflenni apelio ar gael fan hyn: https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/apeliadau-academaidd/

3.2 Bydd apeliadau hwyr dim ond yn cael eu hystyried gan y Brifysgol os gall y myfyriwr ddarparu rheswm da (gyda thystiolaeth i'w chefnogi lle gofynnir amdano), dros gyflwyno'r apêl y tu allan i'r amserlen benodedig. Bydd angen ystyried goblygiadau fisa wrth ystyried unrhyw apeliadau a gyflwynir, gyda rheswm da, y tu allan i'r amserlen benodedig. Ni allwn dderbyn apeliadau fwy na dau fis ar ôl cyhoeddi canlyniadau gan y bwrdd asesu perthnasol, oherwydd yr amserlenni y gellir ystyried apeliadau yn logistaidd a'r rhwymedi y gellir eu gweithredu.

3.3 Pan nodir bod angen ystyriaeth gyflym o apêl, er enghraifft pan fydd cynnydd neu oedi yn effeithio ar iechyd y myfyriwr, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod hyn yn cael ei amlygu i'r staff sy'n ystyried yr apêl a'i gyflymu yn ôl yr angen.

### Sail dros apelio

3.4 Gellir cyflwyno apeliadau ar y sail ganlynol yn unig:

*Diffyg neu afreoleidd-dra gweithdrefnol, sy'n berthnasol i ganlyniad y penderfyniad academaidd.*

Rhaid i fyfyrwyr ddangos un neu fwy o'r categorïau canlynol:

*a) bu camgymeriad gweinyddol, neu gamgymeriad wrth gyfrifo eich canlyniadau*

*b) ni ddilynwyd y broses briodol mewn perthynas ag asesiad, ac mae hyn wedi cael effaith andwyol ar eich perfformiad academaidd;*

*c) roedd diffygion a/neu afreoleidd-dra yn y cyngor a ddarparwyd mewn perthynas ag asesiadau;*

*ch) ni wnaethpwyd penderfyniad academaidd yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir.*

3.5 Ni dderbynnir apêl ar y sail bod anghytundeb gyda barn academaidd neu broffesiynol y bwrdd asesu h.y. lle mae'r myfyriwr yn credu bod nhw yn haeddu marc uwch neu ganlyniad gwahanol. Mae barn academaidd a phroffesiynol yn cynnwys asesu darn penodol o waith a/neu ddod i benderfyniad ar gynnydd, neu ar lefel derfynol y dyfarniad, ar sail marciau, graddau a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â pherfformiad.

3.6 Pan mae gallu myfyriwr i gyflwyno neu berfformio mewn asesiad wedi cael ei effeithio gan amgylchiadau personol, fel iechyd meddwl gwael, nid yw hwn yn sail ddilys i gyflwyno apêl academaidd ond gellir ei godi trwy Rheoliadau a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol.

**Prosesu apeliadau**

3.7 Ar ôl derbyn eich apêl academaidd, ac o fewn pum diwrnod gwaith, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn gwirio bod yr apêl yn dderbyniol; hynny yw:

- nid yw'n cwestiynu barn academaidd na phroffesiynol y Bwrdd Asesu;
- bod yr apêl yn seiliedig ar y seiliau a ganiateir;
- ni ddylid cyfeirio'r mater a godwyd at weithdrefn arall;
- bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n gywir, yn cynnwys yr holl dystiolaeth briodol ac fe'i cyflwynwyd cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r asesiad neu caniateir hynny o dan adran 3.2.

Os mai dyma'r achos, bydd yr apêl yn cael ei chyfeirio at y gyfadran i'w hystyried.

3.8 Os nad yw'r apêl yn bodloni'r gofynion a nodir yn adran 3.7 bydd yn cael ei dychwelyd i'r myfyriwr ynghyd â Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol (gweler adran 5.1). Os yw'r apêl academaidd wedi'i chyflwyno'n rhy gynnar, ni fydd y myfyriwr yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ond fe'u cynghorir ar bryd y bydd eu canlyniadau'n debygol o gael eu cyhoeddi fel y gallant ystyried a fyddent eisiau ailgyflwyno'r apêl academaidd o fewn yr amserlen briodol.

3.9 Os yw'r apêl academaidd yn ymwneud â gwall gweinyddol syml, bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn gofyn i'r cywiriadau priodol gael eu gwneud.

3.10 Bydd pob apêl academaidd arall sy'n gymwys i'w hystyried yn cael ei chyfeirio at enwebai yn y gyfadran (yr Enwebai). Ni fydd yr Enwebai wedi bod yn rhan o ystyried eich canlyniadau.

3.11 Ymdrinnir ag apeliadau Cam 2 ar sail y dogfennau y mae'r myfyriwr wedi eu darparu. Yn eithriadol, gellir gwahodd y myfyriwr i gyfarfod i egluro manylion yr apêl. Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar yr Enwebai i'w cynorthwyo i ddod i benderfyniad ar ganlyniad yr apêl, rhoddir pum diwrnod gwaith i'r myfyriwr gadarnhau eu bod yn bwriadu darparu'r wybodaeth ychwanegol a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth. Efallai y bydd angen tystiolaeth neu eglurhad pellach hefyd gan bobl a/neu adrannau eraill o fewn y Brifysgol. Os na chyflwynir y wybodaeth o fewn yr amserlen, ac na ddarperir rhesymeg dros yr oedi, gwneir penderfyniad ar yr apêl heb wybodaeth ychwanegol.

3.12 Mae gan yr enwebai 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn darparu'r darn perthnasol olaf o ddogfennaeth neu'r dyddiad y trosglwyddwyd yr apêl i Gam 2 (pa bynnag sy'n ddiweddarach), i adolygu'r apêl a darparu ymateb i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifennu at y myfyriwr gyda chanlyniad yr apêl o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn ateb y gyfadran.

3.13 Lle nad yw'n bosibl i'r Brifysgol gadw at yr amserlenni penodedig; er enghraifft, oherwydd cymhlethdod yr achos, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu atoch gan roi'r rheswm dros yr oedi a dyddiad diwygiedig ar gyfer canlyniad eich apêl.

**Canlyniad**

3.14 Os caiff yr apêl ei chadarnhau, bydd y llythyr canlyniad yn manylu ar beth sy'n digwydd nesaf ac a oes angen i'r myfyriwr gysylltu ag unrhyw un ymhellach. Bydd eich canlyniad yn cael ei bennu yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir a'i adrodd i'r Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant i'w gadarnhau.

3.15 Os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, bydd penderfyniad gwreiddiol y Bwrdd Dyfarnu a Dilyniant y mae'r myfyriwr wedi apelio yn ei erbyn yn dal i sefyll.

## ADRAN PEDWAR: GWEITHDREFN CAM 3 – CAIS I ADOLYGU

**Sail dros adolygu**

4.1 Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno cais Cam 3 i adolygu penderfyniad Cam 2 ar y seiliau canlynol:

*a)* *Mae gennych dystiolaeth na chynhaliwyd gweithdrefnau Cam 2 yn unol â'r rheoliadau a bod hyn wedi'ch rhoi dan gryn anfantais.*

*b)* *Mae gennych dystiolaeth newydd a pherthnasol nad oedd ar gael, **am reswm da**, ar yr adeg y cyflwynwyd eich apêl cam 2.*

*c)* *Mae gennych dystiolaeth nad oedd y canlyniad yng ngham 2 yn rhesymol neu'n anghymesur o dan yr amgylchiadau.*

4.2 Ni all myfyrwyr gyflwyno unrhyw faterion newydd yng ngham 3.

**Amserlenni**

4.3 Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais Cam 3 am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith o gael eu hysbysu am ganlyniad Cam 2 gan ddefnyddio'r 'Ffurflen Cam 3 – Cais am Adolygiad' a dylai gynnwys tystiolaeth briodol. Gellir cael ffurflenni cais am adolygiad yn https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/apeliadau-academaidd/.

4.4 Bydd ceisiadau hwyr am adolygiad dim ond yn cael eu derbyn os yw'r myfyriwr yn gallu rhoi rheswm da, (gyda thystiolaeth yn ôl yr angen) am gyflwyno'r cais y tu allan i'r amserlenni a nodir yn 4.3. Bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i amserlenni lle mae goblygiadau fisa yn y cwestiwn.

4.5 Pan nodir bod angen ystyried cais am adolygiad yn gyflym, er enghraifft, pan fydd cynnydd neu oedi yn effeithio ar iechyd y myfyriwr, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y staff perthnasol yn cael gwybod am hyn.

4.6 Pan na fydd modd i'r Brifysgol gadw at yr amserlenni penodol, er enghraifft oherwydd cymhlethdod yr achos, bydd y Brifysgol yn ysgrifennu at y myfyriwr yn rhoi'r rheswm dros yr oedi a dyddiad diwygiedig ar gyfer canlyniad yr adolygiad.

**Ystyriaeth gychwynnol i'r achos**

4.7 Bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cynghori'r myfyriwr o fewn pum niwrnod gwaith a yw'r cais am adolygiad yn gymwys i'w ystyried ymhellach; hynny yw:

a) cyflwynir achos dadleuol o dan o leiaf un o'r seiliau a nodir yn 4.1.

b) cyflwynwyd y cais am adolygiad o fewn deg diwrnod gwaith i ganlyniad Cam 2; neu rhoddir rheswm da dros fod yn hwyr (wedi'i gefnogi gan dystiolaeth fel y gofynnwyd gan Gwaith Achos Myfyrwyr).

c) cefnogir y cais am adolygiad yn briodol gan dystiolaeth.

Pan nad yw cais am adolygiad yn gymwys, byddwch yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, a fydd yn caniatáu ichi gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) os ydych yn parhau i fod yn anfodlon.

4.8 Os bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn penderfynu bod eich cais am adolygiad yn cyflwyno achos dadleuol, gellir cymryd y camau canlynol:

a) Os oes gwall gweinyddol, bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn gofyn i hyn gael ei gywiro ac adroddir yn ôl i'r Bwrdd Dyfarniadau a Dilyniant.

b) Os yw'r achos yn un syml, caiff ei gyfeirio'n ôl at y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant perthnasol i'w ailystyried.

c) Os yw'r achos yn un cymhleth, caiff ei gyfeirio at Banel Adolygu.

**Panel Adolygu**

4.9 Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys:

- un aelod a benodir gan y Bwrdd Academaidd (Cadeirydd);
- cynrychiolydd academaidd o staff nad yw'n gysylltiedig â'r apêl dan sylw;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai), a fydd yn annibynnol ac na fydd ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am eich achos.

Bydd aelodau'r Panel Adolygu yn annibynnol ac ni fydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr wedi eich cefnogi o'r blaen yn ystod eich achos.

Bydd aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn darparu cymorth gweinyddol.

4.10 Bydd y Panel Adolygu yn cael ei gynnull o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad yr atgyfeiriad gan y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

4.11 Er mwyn caniatáu ystyriaeth lawn o'r cais am adolygiad, gall yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ofyn am wybodaeth berthnasol gan y gyfadran. Diben y Panel Adolygu yw adolygu'r gweithdrefnau yng ngham 2 a, lle bo'n berthnasol, ystyried a oedd yn rhesymol na ddarparwyd tystiolaeth yng ngham 2.

4.12 Bydd y Panel Adolygu yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

a) Gwrthod yr apêl a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Yn yr achos hwn, bydd penderfyniad y Panel Adolygu yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith o'r cyfarfod. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac ystyrir bod y mater wedi dod i ben.

b) Bod canlyniad mwy cymesur yn cael ei awgrymu yn ei le yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir a bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl at Gadeirydd y Bwrdd Dyfarnu ac Asesu Dilyniant i'w ailystyried.

Bydd penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Dyfarniadau a Dilyniant yn cael ei ddarparu i Bennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) o fewn 10 diwrnod gwaith a bydd y penderfyniad yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr o fewn pum diwrnod gwaith pellach.

4.13 Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd y Panel Adolygu yn gofyn i'r Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant ailymgynnull. Os felly, mae'n bosibl y bydd y Panel Adolygu yn gofyn i swyddog o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr fynychu cyfarfod y Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant fel sylwedydd. Bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu os bydd angen newid amserlenni o ganlyniad.

4.14 Fel arfer, cynhelir unrhyw gyfarfod o'r Panel Adolygu yn breifat; fodd bynnag, bydd y myfyriwr yn cael cyfle i ddarparu sylwadau ysgrifenedig ymlaen llaw. Mewn achosion eithriadol, gellir gwahodd y myfyriwr i gyfarfod â'r Panel Adolygu i egluro manylion y cais am adolygiad. Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu yn cadarnhau a fydd y cais yn cael ei gadarnhau.

4.15 Nid oes apêl yn erbyn penderfyniad y Panel Adolygu. Pan fydd y Panel Adolygu yn gwrthod yr apêl, bydd llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei anfon yn awtomatig.

4.16 Lle mae cais am adolygiad yn arwain at ganlyniad gwahanol, os yw'r myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon â'r penderfyniad, byddant yn gallu gofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

4.17 Gall y Panel Adolygu wneud argymhellion i'r Is-Grŵp Rheoliadau neu'r Bwrdd Academaidd eu hystyried, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion sy'n codi o ystyried apeliadau.

## ADRAN PUMP: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA)

5.1 Os yw'r myfyriwr yn anfodlon â chanlyniad gweithdrefnau mewnol y Brifysgol, gallant, ar ôl derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

5.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.